**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL**
**CYFARFOD / MEETING 6/1/2014**

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** Cadeirydd Mrs S Jones, Mrs C Lloyd, Mrs E Jones,Mrs H Williams, Ms M E Evans,Mrs S Roberts, Mr G Williams, Mr B Veevers, Mr R G Parry. | **PRESENT:** Chairman Mrs S Jones, Mrs C Lloyd, Mrs E Jones,Mrs H Williams, Ms M E Evans,Mrs S Roberts, Mr G Williams, Mr B Veevers, Mr R G Parry. |
| **YMDDIHEURIADAU:** Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Ms M Williams, Y Cynghorydd Ms N Roberts a'r Cynghorydd D Rees. | **APOLOGIES:** Apologies were received from Ms M Williams, Councillor Ms N Roberts and Councillor D Rees. |
| **COFNODION:** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4/11/2013 yn gofnod cywir. | **MINUTES:** Minutes of the meeting held on 4/11/20134 were accepted as true record. |
| **MATERION YN CODI:**<br>**Datganiad Diddordeb.** Bu i Mrs Catherine Lloyd a Mrs Edna Jones ddatgan diddordeb yn Eitem 6, ac fe aeth y ddwy allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth. | **MATTERS ARISING:**<br>**Declaration of Interest.** Mrs Catherine Lloyd and Mrs Edna Jones declared an interest in Item 6, and both left the meeting during the discussion. |
| **1. Cymru'n Cofion - Awst 4, 2014.** Dywedodd Mrs E Jones nad oedd gan yr ysgol ddim cynlluniau ar gyfer yr uchod. Cynigiwyd cynnal gwasanaeth coffa ar y dydd Sul cyn 4/8/2014. Penderfynwyd gadael y mater tan y cyfarfod mis nesaf cyn gwneud penderfyniad terfynol. Y Clerc i holi a fyddai torchau ar gael. | **1. Wales Remembers – 4th August 2014.** Mrs E Jones informed the Council that the school had no plant for the above. It was proposed that a memorial service be held on the Sunday before the 4/8/2014. It was decided to leave the matter until next month's meeting before making a final decision. The Clerk to find out whether poppy wreaths would be available. |
| **2. Prosiect "Tidy Towns".** Dywedodd Mr Veevers bod rhywfaint o waith wedi'i wneud yn y cae chwarae plant, ond fod y tywydd garw wedi dal y gwaith yn ôl. Penderfynwyd y byddai i Mr Veevers yn cysylltu â Lois Roberts yn y Cyngor Sir petai dim gwaith pellach yn cael ei wneud yn fuan. | **2. "Tidy Towns" project.** Some amount of work had been done in the children's playing field, but the inclement weather had held the work back. It was decided that if no further work had been done, Mr Veevers was to contact Ms Lois Roberts from the County Council. |
| **3. Cloc y Pentref.** Derbyniwyd amcangyfrif o £19,935 oddi wrth Mri J B Joyce i wneud gwaith atgyweirio ar y cloc. Derbyniwyd cyngor hefyd i gynnal archwiliad ar y coed sy'n dal mecanwaith y cloc. Y Clerc i gysylltu â Menter Môn | **3. Village clock.** An estimate of £19,935 was received from Messrs J B Joyce for repairing the clock. They also advised that an inspection of the wood holding the mechanism of the clock should be carried out. The Clerk to |

i holi am grantiau. Wedi ystyried Iechyd a Diogelwch gofalwr y cloc, penderfynwyd na ddylai Mr Neville Williams fynd i mewn i'r cloc ar gyfer ei weindio nes bydd adroddiad ar gyflwr y coed, ac unrhyw waith yn dilyn o'r adroddiad, wedi'i gwblhau.

contact Menter Môn regarding obtaining grants. After due consideration to the Health and Safety of the clock's caretaker, it was decided that Mr Neville Williams should not enter the clock for the purpose of winding it until the report on the condition of the wood and any work following from the report has been completed.

**4. Cais cynllunio ar y Chwarel.** Yn dilyn derbyn llythyr oddi wrth Mr Robin Jones, Argraig yn codi 3 cwestiwn o'r cais, derbyniwyd llythyr oddi wrth Gyngor Sir y Fflint mewn ymateb i'w gwestiynau. Penderfynwyd anfon copi o'r ymateb at Mr Jones.

**4. Planning application on the Quarry.** Following receipt of a letter from Mr Robin Jones, Argraig raising 3 questions arising from the application, a letter from Flintshire County Council was received in response to his questions. It was decided to forward a copy of the response to Mr. Jones.

**5. Fferm Heulol Bryn Rodyn.** Yn dilyn llythyr oddi wrth Mr Gwyn Jones Pen Graig ynglŷn â'r uchod, bu i'r Cadeirydd a'r Clerc dderbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod yng Nghyngor Cymuned Llangristiolus ynglŷn â'r uchod. Deallwyd yn y cyfarfod nad oedd gan y Cyngor Sir bolisi ar gyfer adeiladu Ffermydd Heulol, ac felly penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd R G Parry edrych i mewn i'r mater. Yn dilyn holi yn y Cyngor Sir, cadarnhaodd y Cynghorydd Parry nad oedd gan y Cyngor Sir bolisi yn ymwneud â Ffermydd Heulol.

**5. Solar Farm at Bryn Rodyn.** Following receipt of a letter from Mr Gwyn Jones, Pen Graig regarding the above, the Chairman and the Clerk had received an invitation to attend a meeting at Llangristiolus Community Council regarding the above. From that meeting, it was understood that the County Council had no policy regarding building Solar Farms, and therefore it was decided to request Councillor R G Parry to look into the matter. Following discussing this at the County Council, Councillor Parry confirmed that the County Council did not have a policy appertaining to Solar Farms.

**6. Seminar Safleoedd Tai Posibl.** Cafwyd adroddiad gan Mrs Catherine Lloyd yn dilyn iddi fynychu'r seminar uchod, ac yna fe drafodwyd ei hadroddiad.

**6. Possible Housing Sites.** Mrs Catherine Lloyd gave a report following her attendance at the above seminar, and her report .was discussed thereafter.

**GOHEBIAETH;**

**1. Un Llais Cymru.**

**(a) Model Rheolau Sefydlog Diwygiedig ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.** Penderfynwyd Derbyn y model diwygiedig.

**(b) "Cymru'n Cofio 1914-1918".** Gofyn am wybodaeth am unrhyw

**CORRESPONDENCE:**

**1. One Voice Wales.**

**(a) Revised Model Standing Orders for Community and Town Councils.** It was decided to accept the revised model.

**(b) "Wales Remembers 1914-1918".** Requesting information on any activities

weithgareddau sy’n coffau canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Penderfynwyd ymateb i hwn yn dilyn ei drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf. Gwybodaeth hefyd ar ble i ddod o hyd i gymorth, cyngor a chyllid ar gyfer prosiectau yn ymwneud a chofebion rhyfel.

which mark the centenary of the First World War. It was decided to respond to this following further discussion at the next meeting. Information also regarding where help, advice and funding for war memorial related projects can be found.

**(c) Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn i**'w gynnal 29 Ionawr 2014. Mrs Catherine Lloyd a’r Clerc i fynychu.

**(c) Anglesey Area Committee meeting** to be held 29 January 2014. Mrs Catherine Lloyd and the Clerk to attend.

**(d) Dogfennau eraill** er gwybodaeth yn unig.

**(d) Other documents** for information only.

**2. RoSPA.** Neges gan Bennaeth Diogelwch Chwarae Cymdeithas Frenhinol Atal Damweiniau i atgoffa ei bod yn hanfodol cynnal archwiliad annibynnol o gyfleusterau chwarae ym meysydd cae chwarae plant. Rhoi’r wybodaeth i Mr B Veevers i’w ddod i sylw’r Pwyllgor Maes Chwarae Plant.

**2. RoSPA.** Message from the Head of Play Safety for the Royal Society for the Prevention of Accidents reminding that it is essential to get an independent annual inspection of play facilities in children’s playing grounds. The information given to Mr B Veevers to bring to the attention of the Playing Field Committee.

**3. Iwan Edgar,Hendre, Berch, Pwllheli.** Copi o lythyr a anfonodd at Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd yn ymwneud ag Adroddiad Asesiad Iaith (Gwynedd a Môn) yng nghyswllt y Cynllun Datblygu. Er gwybodaeth.

**3. Iwan Edgar,Hendre, Berch, Pwllheli.** Copy of a letter he sent to the Planning Department, Gwynedd Council in respect of the Language Assessment Report (Gwynedd and Anglesey) regarding the Development Plan. For information.

**4. Mr Christopher Sean Davies, 101 Maes Meurig, Gwalchmai.** Llythyr yn gofyn am wybodaeth dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Penderfynwyd gofyn i’r Clerc ymateb i gais Mr Davies a’i gynghori fod yr holl wybodaeth roedd yn ei ofyn amdano i’w gael ar wefan y Cyngor Cymuned.

**4. Mr Christopher Sean Davies, 101 Maes Meurig, Gwalchmai.** Letter requesting information under the Freedom of Information Act. It was decided that the Clerk respond to Mr Davies’ request, and advice him that all the information he requested can be found on the Community Council’s website.

**5. Llywodraeth Cymru - Llywodraeth Leol a Chymunedau. Ymgynghori ar y Cynnig i Ddiddymu ac Ail-wneud Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.** Derbyn er gwybodaeth.

**5. Consultation on the Proposed Revocation and Remaking of the Accounts and Audit (Wales) Regulations 2005.** For information.

**6. Heddlu Gogledd Cymru. Y Cynllun Heddlu a Throsedd – Ail Alwad am Dystiolaeth.** Derbyn er

**6. North Wales Police. Police and Crime Plan – Second Call for Evidence.** For information.

gwybodaeth.

**7. Cyngor Sir Ynys Môn.**
**(a) Rhybudd Derbyn Cais** amlinellol ar gyfer dymchwel modurdy presennol ynghyd a chodi annedd gyda holl faterion wedi ei gadw yn ôl ar dir yn Tan y Bryn, Gwalchmai.
**(b) Rhybudd Penderfyniad i** ganiatáu cais llawn i newid defnydd modurdy i anecs ynghyd a'i addasu a'i ehangu a chodi modurdy newydd yn Min yr Afon, Gwalchmai.

**(c) Fforwm Cynllunio Ynys Môn Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10/10/13.** Er gwybodaeth.
**(d) Coridor yr A5 – Llwybr Cerdded a Beicio.** Dau fap yn dangos sut y mae'r llwybr wedi ei rannu yn 10 rhan. Er gwybodaeth.
**(d) Toriadau posib i wasanaethau bws a weithredir o dan gontract i Gyngor Sir Ynys Môn.** Nid yw'r toriadau posibl yn effeithio ar Walchmai. Derbyn er gwybodaeth.
**(e) Ymgynghoriad Cwrdd â'r Heriau (Y Gyllideb 2014-2014).** Derbyn er gwybodaeth.

**7. Cais am gyfraniad** oddi wrth Urdd Gobaith Cymru,Llyfrau Lafar Cymru a Dawns Gymuned. Penderfynu peidio cyfrannu.

**ARIANNOL:**
**1. Archebion Cynghorau Cymuned/Tref 2014/15.** Gan fod cryn wariant i'w wneud ar y cloc, penderfynwyd gofyn am godiad yn yr archeb o £5500.00 i £6500.00.

**2. Anfonebau** oddi wrth: Hywel G Hughes am wasanaeth cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd **£45.00;** Atebion Cyfrifiaduron Môn am gynllunio gwefan i'r Cyngor a chostau gwesteia o fis Tachwedd 2013 i fis Hydref 2015 **£460.00;** J D Roberts, Cyfrifydd Mewnol

**7. Isle of Anglesey County Council.**
**(a) Notice of receipt of outline application** for the demolition of the existing garage together with the erection of a dwelling with all matters reserved on land at Tan y Bryn, Gwalchmai.
(b) **Notice of Decision** to approve full application for conversion of existing garage into an annexe together with alterations and extensions thereto and construction of a new garage at Min yr Afon, Gwalchmai.
**(c) Anglesey Planning Forum. Minutes of the meeting held on 10/10/13.** For information.
**(d) A5 Corridor – Walking and Cycling Route.** Two maps showing how the route has been split up into ten sections. For information.
**(d) Potential cuts to bus services which operate under contract to Isle of Anglesey County Council.** The potential cuts do not affect Gwalchmai. For information.
**(e) Consultation on Meeting the Challenges (Budget 2014-2014).** For information.

**7. Application for donation** from Urdd Gobaith Cymru, Talking Books Wales and Community Dance. It was decided not to donate.

**FINANCIAL:**
**1. Community/Town Council Precepts 2014/15.** As there is a substantial spend on the village clock, it was decided request a raise in the precept from £5500.00 to £6500.00.

**2. Invoices** from Hywel G Hughes for interpreting services at the November meeting of the Council **£45.00;** Anglesey Computer Solutions for designing website for the Council together with hosting costs from November 2013 to October 2015 **£460.00**; J D Roberts, Internal Auditor for auditing the

am archwilio cyfrifon y Cyngor 2012/13 **£60.00;** Cyngor Sir Ynys Môn rhent y Cae peldroed **£255.00 a £68.34,** swm yn weddill o ganlyniad i gynnydd yn y rhent. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc dalu'r anfonebau a penderfynwyd peidio gofyn i'r Pwyllgor Peldroed am ad-daliad o rent y Cae peldroed am eleni. .

Council's account 2012/13 **£60.00**; Isle of Anglesey County Council for Rent of Football field **£255.00 plus £68.34** for rent increase. It was decided that the Clerk pay all the invoices, and it was decided not to ask the Football Committee to re-pay Football field rent for this year.

**CYFARFOD NESAF:**

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 3 Chwefror 2013 am 7pm yn Neuadd yr Henoed. .

**NEXT MEETING:**

The next meeting will be held on Monday 3 February 2013 at 7pm in the Pensioners Hall.